**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH EBRILL 26AIN 2023**
**CYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN GWYTHERIN**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Myrddin Davies (MGD), Gwydion Jones (GJ), Einir Williams (EW) - mewn cyfarfod arall, bydd yn ymuno yn ystod y cyfarfod hwn.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

EW - eitemau 5.2 a 5.3
ST - 5.3

**3 COFNODION MAWRTH 29AIN 2023 I'W GWIRIO**

Cynigwyd yn gywir gan MD ac eilwyd gan DR.

**4 MATERION YN CODI**

DR eisiau hysbysu'r pwyllgor ei bod wedi tynnu'r cynnig o £100 a wnaeth i Julia Parry yn ôl tridiau ar ôl y cyfarfod diwethaf yn dilyn darllen y cod ymddygiad a rhag ofn tramgwyddo.

DR yn cyfeirio at fater 6.3 yn y pwyllgor diwethaf ac yn atgoffa fod cynghorwyr angen sôn os ydynt yn ymwybodol o unrhywbeth yn digwydd yn yr ardal yna mae'n ofynnol iddynt ddweud hyd yn oed os nad yw ar yr agenda. Cafodd DR gyflwyniad gan Un Llais ar hyn. CR wedi clywed i'r gwrthwyneb ac ar ddeall ddim angen dweud nes ei fod o ar yr agenda. CR eisiau cadarnhad gan Un Llais cyn mynd ymhellach. [AR yn cyrraedd] AR yn egluro rheolau'r Cyngor Sir ac y gall cysylltiadau fod yn rhai personol neu ragrithiol ond rhaid datgan diddordeb wrth ymdrin â chaniatâd cynllunio. AR am siarad gydag Adran Lywodraethol y Cyngor Sir am gyngor.

AV yn cyfeirio at y Ddeddf Hawliau Dynol ac yn egluro bod tirfeddiannwyr wedi bod yn cael eu haslo ac os bydd hyn yn digwydd iddi yna bydd llythyr twrna yn cael ei yrru i'r rhai hynny sy'n gyfrifol. AR yn atgoffa os oes unrhyw gysylltiad personol neu ragrithiol yna'r peth gorau i'w wneud yw gadael yr ystafell.

CWG wedi cynhyrchu tabl 'Datgan diddordeb' ers y cyfarfod diwethaf. Pasiwyd i'w gyhoeddi ar y wefan.

DR yn sôn ei bod wedi mynychu cwrs y gyfraith a fod angen rhoi'r rhestr buddiannau ar y wefan. AV yn sôn am y Ddeddf hawliau dynol a 'data protection' a MD yn gofyn a oes hawl cyhoeddi hyn gan ei fod yn gwneud busnes yn gyhoeddus? AR yn nodi fod angen datgan dim ond os ydynt yn elwa os o'r cyswllt. Pawb yn gytûn eu bod yn gwneud hynny yn barod. DR yn cynnig fod CWG yn holi'r cwestiwn i Un Llais.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** Cais Rhif 0/50645 Tir wrth ymyl Melai, Llangernyw, LL22 8TD
Wedi cymeradwyo o'r blaen. DR yn dyfynnu o'r caniatâd yn sôn am fioamrywiaeth. Pawb yn gytûn o'i blaid.

**5.2** Cais Rhif 0/50617 Arfryn, Pandy Tudur, LL22 8UL
Pawb yn cymeradwyo.

**5.3** Cais Rhif 0/50610 Tir yn Merddyn, Gwytherin LL22 8UY

Llawer o bobl leol yn siomedig fod y cais diwethaf wedi ei wrthod. DR yn sôn am ddisgyblion yn gwneud gwaith ysgol ac angen cysylltiad. [EW yn cyrraedd ac yn cerdded allan oherwydd datganiad diddordeb]. Pawb yn cymeradwyo.

**5.4** Cais Rhif 0/50679 Bryn Hafod, Gwytherin LL22 8YF. DR yn dyfynnu o'r cais a ddim yn eglur ganddi. AR yn egluro beth yw'r cais. DR yn nodi nad yw Llethr na Phen Llethr wedi anfon unrhyw wrthwynebiad. AR yn sôn ei fod o fewn polisi. Pawb yn gytûn gyda 'Dim barn'.

**6. MATERION CYNGOR**

**6.1** Arwyddion trydanol - CR yn sôn fod problem gyda'r lleoliad erbyn hyn. Maent wedi symud un Parc Aelas o un ochr i'r llall. AR yn awgrymu cysylltu gyda Richard Roberts a threfnu dyddiad i gyfarfod efo CR a DR. Mi wnânt roi'r arwydd yn ble bynnag mae'r cyngor cymuned yn teimlo ei fod ei angen. AR yn atgoffa fod angen ystyried eu bod angen bod wrth ymyl polyn gan eu bod yn cael eu pweru gan drydan. DR, MD, CR ac efallai JR am drefnu cyfarfod gyda Richard Roberts.

**6.2** Adroddiadau - CR yn sôn fod adroddiadau yn dilyn cynghorydd wedi mynychu cyfarfod ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn gallu bod yn faith. Awgrymodd y dylent o hyn ymlaen gael eu gyrru ychydig ddyddiau o flaen llaw ar e-bost i bawb eu darllen ac yna gellid arbed amser. Pawb yn gytûn.

**7. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Mae'r ffordd o groesffordd Gosen i'r pentref ac o Ty'n Pistyll wedi cychwyn cael ei batsio. Gobeithio cychwyn ar y gwaith o roi sgalpins ar yr ochr llefydd pasio wrth ymyl Lead Inn cyn diwedd yr wythnos. JR yn sôn ei fod yn ffordd hynod brysur ac angen ei wneud. Angen codi hyn gydag AR erbyn diwedd y flwyddyn o ffyrdd yr ardal sydd angen eu gwneud. Bydd archwilydd yn gallu penderfynu pa rai fu yn cael eu gwneud. DR yn nodi fod nifer o geir wedi mynd yn sownd ar allt Ty'n Pistyll. AR wedi bod o gwmpas gyda'r archwilydd ac am wneud rhai ffyrdd.

Pen Bryn Bont Syllty - cais cynllunio yn erbyn polisi amaethyddol ac AR wedi bod yn gwneud ymholiadau ar ran y cwpwl. Mae'r safle ar y rhestr y bydd y Sir yn ymweld â nhw ym mis Mai.

Mae llwybr amgen ar gyfer y llwybr cyhoeddus drwy ganol Hafod y Gog wedi ei benderfynu. Ond, mae mapiau yn bodoli gyda'r llwybr gwreiddiol. Bydd arwyddion ar gyfer y llwybr newydd i fyny yn fuan.

Trafodwyd y llefydd parcio o flaen yr Hen Eglwys yng Ngwytherin. AR wedi cysylltu gydag adran asedau'r cyngor yn barod ac mae angen fwy o luniau, bydd yn eu hanfon iddo yfory.

AR wedi ymchwilio i sut i gael arwyddion 'Beicio'n saff' ond nid yw'r cyngor yn ymwybodol ohonynt. Mae'r arwyddion ar yr A470 ac felly yn cael ei reoli gan Senedd Caerdydd. Nododd AR fod NWMTRA yn gyfrifol am y ffordd ac yn dweud wrth y cyngor sir beth sydd angen ei wneud a bydd yn ymchwilio fwy iddyn nhw.

Mae'r arwydd ffordd yng Ngwytherin oedd wedi torri wedi ei atgyweirio.

Mae AR ynghyd a chynghorwyr Sir eraill yr ardal wedi bod yn ceisio sefydlu banc bwyd yn Llanrwst ond yn methu cael adeilad. Maent wedi cysylltu gyda banciau bwyd Conwy ac Abergele ac am ymddwyn fel asiantaeth i'r banciau bwyd hynny. Os yn adnabod unrhywun sydd eisiau defnyddio'r banc bwyd yna cysylltu gyda AR. DR yn cynnig ei roi ar y wefan a phosteri yn y 3 pentref gyda chyfeiriad e-bost AR.

DR yn gofyn am batsio y ffordd yng Nglan Collen hyd at giât yr ysgol gan fod tyllau mawr yn y ffordd. Hefyd yn sôn am Brookhouse a bod trigolion yr ardal ddim yn hapus. AR wedi cael e-byst gan drigolion hefyd. AR yn sôn eu bod wedi cael *certificate of lawfulness* gan fod rhywun wedi

bod yn aros yno yn ystod COVID ac amser wedi mynd heibio. JR yn hysbysu AR mai aros mewn faniau oeddynt yn ystod COVID. AR yn annog os yw unrhyw un yn gwybod am unrhywle y maent yn amau nad oes ganddynt ganiatâd gynllunio yna mae angen cysylltu gydag adran gynllunio y sir.

DR yn gofyn i AR ymholi am y broblem cwn yng nghaeau chwarae Gwytherin ac os ydynt wedi cael caniatâd gan Gyngor Conwy fel a drafodwyd yn y pwyllgor diwethaf. AR am holi'r Adran Reoleiddio i weld os ydynt yn rhoi caniatâd i bobl i fynd a chwn i mewn i barc.

**8. MATERION ARIANNOL**

DR wedi paratoi mandad. Wedi gorwario £1369 ond sêr wrth ymyl rai (llogi ystafell - dim bil). Bydd costau Enlli a CWG i'w hychwanegu. CR yn sôn fod arian etholiad i'w drosglwyddo. Roedd y costau mynwentydd wedi mynd drosodd ond roedd yn fater iechyd a diogelwch felly roedd rhaid ei wario. Arian claddu wedi dod i mewn ar ffurf siec. Arian llwybrau i ddod eto (ac eraill ar waelod y rhestr). Ddim wedi cynnwys VAT - arian VAT Kevin ddim wedi ei gynnwys gan ein bod yn ei hawlio yn ôl. Roedd rhaid gwario ar y lloches bws yn y pentref hefyd gan ei fod yn fater Iechyd a Dioglewch. EW yn gofyn i DR i fentora CWG am yr ochr ariannol. DR am ofyn i Iona y Cyfrifydd archwilio'r llyfrau.

**9. GOHEBIAETH**

**9.1** Dyddiadau hyfforddiant - CWG i yrru e-bost i Wendi gyda'r gofynion.

**10. BILIAU**

**10.1** EW - Prynu Gliniadur a hefyd 'pecyn oes' Microsoft Office. Cyfanswm £388.99
Hefyd, prynu taleb fel diolch i Enlli wrth ddarfod fel ein clerc cofnodion. Cyfanswm £54.95
Derbynebion wedi eu cyflwyno i gefnogi'r uchod. Cyfanswm i'w Dalu = £443.94.

**10.2** CWG i gyflwyno'r mis nesaf

**10.3** Iona Edwards - paratoi cyflogau £60

;. **10.4** Dwr Cymru - mynwent Llangernyw - £15.36

**10.5** Bil Enlli - £143.60

**10.6** - Gadlas £8

**10.7** - D. Evans i dorri gwair - £450

**10.8** - AV - prynu planhigion - £22.68

Pasiwyd i dalu'r uchod i gyd (ar wahân i CWG y mis nesaf)

**11. MATERION LLEOL**

AV - archebu sgipiau ar gyfer Pandy a Gwytherin. Sgip Llangernyw - gorfod archebu slot. Mainc yn y fynwent wedi pydru - mae'r teulu wedi mynd a hi oddi-yno ond ddim yn dymuno cael un arall yn ei lle ac felly mae lle gwag i rywun roi mainc yno os ydynt yn dymuno. Mae cynlluniau ar y gweill i beintio ciosg yng Ngwytherin. AV wedi dechrau prynu blodau i'r tybiau blodau. Wedi dechrau torri coed wrth ymyl Penbont.

EW - llythyr wedi ei dderbyn ynglŷn â baw ci yn y fynwent. EW - angen ystyried TCC (*CCTV*) neu gamera bywyd gwyllt. Baw ci wrth giatiau tai hefyd. Am ei roi ar agenda mis nesaf i'w drafod yn drylwyr.

JR - unigolion wedi stopio taflu baw ci i gae yn y Llan ers i'r arwyddion fod i fyny ond mae 2 o'r arwyddion wedi diflannu.

**12. CYFARFOD NESAF**

Mai 24ain am 7:30y.h yn Festri Pandy Tudur - Cyfarfod Blynyddol
Cyfarfod yn dod i ben am 9.40 y.h
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.